




DULL DIOGEL:

RHEOLI PLÂU



Mae rheoli plâu yn effeithiol yn hanfodol i gadw plâu allan o'ch safle a'u hatal rhag lleadaenu bacteria niweidiol.

PWYNT DIOGELWCH	PAM?	SUT YDYCH CHI'N GWNEUD HYN?
Archwiliwch eich safle yn rheolaidd i weld a oes arwyddion o blâu.	Mae plâu yn cario bacteria niweidiol.	Pryd ydych chi'n edrych am blâu? Un opsiwn yw cyflogi contractiwr rheoli plâu. Darllenwch y dull diogel 'Cyflenwyr a chontractwyr' yn yr adran Rheoli.
Archwiliwch y nwyddau sy'n cael eu dosbarthu yn drylwyr i weld a oes arwyddion o blâu. Peidiwch â derbyn nwyddau os oes arwyddion o blâu e.e. deunydd pecynnu wedi'i gnoi neu bryfed, e.e. chwilod.	Gallai plâu ddod i mewn i'ch safle drwy'r nwyddau sy'n cael eu dosbarthu.	Sut ydych chi'n archwilio'r nwyddau sy'n cael eu dosbarthu?
Cadwch ardaloedd allanol yn daclus heb chwyn. Gwnewch yn siŵr bod gan finiau gaeadau sy'n cau yn dynn a'u bod yn hawdd eu glanhau. Ewch ati i'w glanhau a'u diheintio yn rheolaidd.	Gall chwyn a sbwriel ddenu plâu a rhoi bwyd a llety iddynt.	Pa mor aml ydych chi'n archwilio ardaloedd allanol?

MATH O BLA	ARWYDDION
Llygod mawr a llygod 	Olion traed bach mewn llwch, baw, tyllau mewn waliau a drysau, nythod, nwyddau neu ddeunydd pecynnu wedi'i gnoi, saim neu farciau iro, staeniau wrin ar ddeunydd pecynnu
Pryfed, gan gynnwys rhai sy'n hedfan e.e. gwyfynod 	Cyrff pryfed, pryfed byw, gweoedd, nythod, synau, cynrhon



MATH O BLA		ARWYDDION
Chwilod du (cockroaches)		Wyau a phlsgyn wyau, 'crwyn' wedi'u bwrw, y pryfed eu hunain, baw
Morghug		Pentyrrau bach o dywod neu bridd, y pryfed eu hunain, morgrug sy'n hedfan ar ddiwrnodau poeth
Adar		Plu, baw, nythod, sŵn, yr adar eu hunain
Chwilod a gwyfynod yr yd (weevils)		Pryfed sy'n symud, yn enwedig mewn bwyd sych, cynrhon bach

BETH I'W WNEUD OS AIFF PETHAU O CHWITH	SUT I ATAL HYN RHAG DIGWYDD ETO
<ul style="list-style-type: none"> Os ydych yn gweld arwyddion o blâu, ffoniwch gcontractiwr plâu ar unwaith. Nodwch fanylion cyswllt eich contractiwr plâu ar y Rhestr gysylltiadau yn y dyddiadur. Os ydych yn credu bod plâu wedi dod i gysylltiad ag unrhyw offer, arwynebâu neu gyfarpar, dylech eu golchi, eu diheintio a'u sychu i atal bacteria niweidiol rhag lledaenu. Os ydych yn credu bod plâu wedi dod i gysylltiad â bwyd mewn unrhyw ffordd, taflwch y bwyd. 	<ul style="list-style-type: none"> Cynhaliwch eich archwiliadau plâu yn amlach. Dylech wella hyfforddiant staff ar adnabod arwyddion o blâu a'u hannog i roi gwybod am unrhyw broblemau ar unwaith. Os oes gennych broblemau cyson â phlâu, ystyriwch gyflogi contractiwr plâu, os nad oes gennych un eisoes.

Nodwch beth aeth o'i le a sut aethoch chi i'r afael â'r sefyllfa yn eich dyddiadur.



MEDDYLIWCH DDWYWAITH!

Peidiwch byth â gadael i abwyd/cemegion rheoli plâu, gan gynnwys chwistrellau, ddod i gysylltiad â bwyd, deunydd pecynnu, offer nac arwynebâu, gan eu bod yn debygol o fod yn wenwynig i bobl.

RHEOLI

- Gwnewch yn siŵr nad oes unrhyw fwyd neu blatiau budr ac ati yn cael eu gadael allan dros nos – maent yn ffynhonnell o fwyd i blâu.
- Gwnewch yn siŵr y caiff archwiliadau plâu eu cynnal yn rheolaidd.
- Gwnewch nodiadau yn eich dyddiadur i'ch atgoffa pryd i chwilio am blâu.
- Os oes gennych chi gcontractwr plâu, cofiwch gadw cofnod o'i fanylion cyswllt a'i ymweliadau. Nodwch unrhyw adborth/camau gweithredu a argymhellir ganddo. Nodwch hefyd pa bryd yr aethoch ati i gymryd y camau hyn.